# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## Papur 2 (CWLS(2) 02-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher, 1 Chwefror 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00am - 12.00 pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cyngor Chwaraeon Cymru

### Pwyllgor Diwylliant

## Pêl Droed Yn Y Gymuned

### Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cyflwyno cefndir y gwaith o ddatblygu pêl droed yn ein cymunedau i aelodau'r Pwyllgor Diwylliant.

### Sefydlu Ymddiriedolaeth Pêl Droed yn y Gymuned CBDC (YCBDC)

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru (CChC) yn cyllido datblygiad pêl droed yn bennaf drwy Ymddiriedolaeth Pêl Droed yn y Gymuned (YCBDC) CBDC, a sefydlwyd yn 1996 gan y corff rheoli ar gyfer pêl droed yng Nghymru, Cymdeithas Bêl Droed Cymru (CBDC). Gwelwyd CBDC yn ymgorffori YCBDC fel cwmni cyfyngedig gan warant, gyda'r amcan o sicrhau bod y cyllid yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygu pêl droed yng Nghymru ar lefel gyffredin ac ieuenctid.

Cyflwynodd CBDC nodau iddo:

- sicrhau cynnydd mewn cymryd rhan ymhlith bechgyn a genethod;
- yflwyno hyfforddiant i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr;
- canfod a datblygu chwaraewyr ieuainc talentog, er mwyn cefnogi llwyddiant y timau cenedlaethol yn y dyfodol.

Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth £200,000 dros gyfnod o 3 blynedd gan CChC (1997-2000). Codwyd nifer o faterion tua diwedd y cyfnod hwn ac, o ganlyniad, comisiynodd CChC Baker Tilly i adolygu pa un ai oedd y corff yn addas i'w bwrpas ai peidio. Cyflwynodd yr adroddiad a ddilynodd 50 o argymhellion yr oedd rhaid i YCBDC roi sylw iddynt. Roedd y rhain yn ymwneud â materion

cysylltiedig â rheolaeth ariannol a’r dull corfforedig o reoli’r sefydliad. Penodwyd nifer o ymddiriedolwyr newydd a gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd canlynol.

O ganlyniad i’r pryderon hyn, a’r gostyngiad mewn cyllid wedi colli’r Dreth Fetio ar y Pwls, sefydlodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon bryd hynny, Jenny Randerson AC, Fforwm Pêl Droed y Cynulliad Cenedlaethol, i edrych ar ddatblygiad y Gêm Iau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae YCBDC wedi adolygu ei Memorandwm a’i Herthyglau Cwmni (i’w dilysu yn CCB YCBDC ar 20 Ionawr 2006) yn ystod y 12 mis diwethaf i sicrhau bod ei swyddogaethau’n briodol ac yn bodloni’r nodau elusennol y’i sylfaenwyd ar eu cyfer. Mae cyfanswm yr Ymddiriedolwyr yn 14 (7 o Aelodau Cyngor CBDC a 7 Annibynnol).

## Fforwm Pêl Droed Llywodraeth y Cynulliad

Cyfarfu’r Fforwm Pêl Droed 6 gwaith (yn ystod 2001-02), a’r cylch gorchwyl / amcanion oedd:

- Adolygu pêl droed y grwpiau oedran yng Nghymru hyd at ac yn cynnwys y lefel dan 19 oed, o safbwynt cyfeiriad hirdymor y gamp a’r swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan y cyrff pêl droed amrywiol;
- Cadarnhau neu sefydlu cyfeiriad, strategaeth a llwybr datblygu clir ar gyfer dyfodol pêl droed y grwpiau oedran yng Nghymru (hyd at ac yn cynnwys y lefel dan 19 oed). Y strategaeth i gynnwys pêl droed mini, addysgu hyfforddwyr, datblygu chwaraewyr a chyfleusterau;
- Cadarnhau neu sefydlu swyddogaeth a chyfrifoldebau pendant y cyrff pêl droed amrywiol oddi mewn i’r strategaeth newydd.

Anogwyd bob un o’r sefydliadau a gynrychiolwyd ar y Grwp i ‘arwyddo’ i’r cyfeiriad newydd a oedd yn cael ei ddatgan yn yr adroddiad terfynol. Y Cyrff a gynrychiolwyd ar y Grwp oedd:

- Cymdeithas Bêl Droed Cymru (un cynrychiolydd o Gymdeithas Ardal; un cynrychiolydd clwb / cynghrair);
- Ymddiriedolaeth Pêl Droed yn y Gymuned CBDC (y Cyfarwyddwr Technegol ac un Ymddiriedolwr);
- Cynghrair Cymru (un cynrychiolydd);
- Cymdeithas Bêl Droed Ysgolion Cymru (un cynrychiolydd);
- tri chlwb proffesiynol yng Nghymru (un cynrychiolydd i gyd);
- cynrychiolaeth o gêm y merched a’r genethod (un unigolyn);
- cynrychiolaeth o bêl droed ar gyfer yr anabl (un unigolyn);
- cynrychiolaeth o Awdurdodau Lleol (un unigolyn);
- Cyngor Chwaraeon Cymru (un unigolyn);
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (un unigolyn).

Roedd rheolwyr timau cenedlaethol gêm y dynion a’r merched i ddangos cefnogaeth gyhoeddus i

sefydlu'r Grwp a byddid yn ymgynghori â hwy ynghylch y cyfeiriad yn y dyfodol wrth iddo ddatblygu. Cadeiriwyd y Grwp gan Gareth Davies (Cadeirydd CChC bryd hynny).

Canlyniad y fforwm oedd bod dogfen wedi'i llunio (Fforwm Pêl Droed Llywodraeth Cynulliad Cymru – Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol 2002-2007) a gofynnwyd i YCBDC fod yn gyfrifol am weithredu ei darganfyddiadau. Cytunodd y Gweinidog i roi mwy o gyllid i'r Ymddiriedolaeth. Gwnaed ymrwymiad blwyddyn gan CChC yn 2002-03 gyda dyfarniad o £301,339. Cytunwyd ar swm o £1.3m gan LlCC (heb gynnwys cyfraniad CChC) am weddill tymor y strategaeth - £150k ym mlwyddyn 1 (2003-04), £500K ym mlwyddyn 2 (04-05) a blwyddyn 3 (05-06) a £150k ym mlwyddyn 4 (06-07).

## Staffio

Mae strwythur staffio YCBDC yn cynnwys:

- Rheolwr Cyffredinol;
- Rheolwr Datblygu Cenedlaethol;
- Pennaeth Dros Dro y Rhaglenni Technegol;
- Pennaeth Cynorthwyol Dros Dro y Rhaglenni Technegol;
- Rheolwr Datblygu Cenedlaethol;
- Rheolwr Prosiectau UKCC;
- Swyddogion Datblygu Pêl Droed Sirol, mewn partneriaeth ag ALl'au;
- Cydlynydd Cenedlaethol - pêl droed Merched a Genethod;
- Cydlynydd Cenedlaethol - pêl droed yr Anabl (2 x swyddog rhan amser);
- Rheolwr Cyllid a Gweinyddol;
- Swyddog Gweinyddol;
- Cefnogaeth Wybodaeth a Chyfathrebu;
- 2 x Cynorthwy-ydd Gweinyddol.

Cynhaliwyd adolygiad gwerthuso gan adran Ymchwilio a Gwerthuso CChC ar ran YCBDC, er mwyn helpu YCBDC i benderfynu ar lwyddiant gweithredol eu Swyddogion Datblygu Pêl Droed (SDPDion) wrth geisio cyrraedd y targedau a gafodd eu datgan yn y Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol. Lluniwyd adroddiad yn seiliedig ar yr adolygiad.

Gwelodd pawb fod hyn yn hanfodol oherwydd y buddsoddiad aruthrol yn y maes yma – rhyw £350,000 y flwyddyn.

Cyflwynwyd adroddiad i YCBDC yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau'r cyfryngau / dulliau presennol a ddefnyddir er mwyn bodloni amcanion a nodau'r strategaeth. Bydd YCBDC yn bwrw'r adroddiad hwn yn ei flaen yn awr ac, yn y lle cyntaf, bydd yn cyfarfod â phob SDPD a'u cynrychiolwyr yn yr Awdurdodau Lleol i drafod darganfyddiadau'r adroddiad ac i gytuno ar y newidiadau angenrheidiol mewn perthynas ag arferion gwaith a nodwyd yn yr adroddiad.

## YCBDC - Strategaeth 2006-2010

Mynychodd cynrychiolwyr YCBDC gyfarfod o Banel Aelodau CChC ar 14 Mawrth 2005 er mwyn ystyried cyllid o fis Mehefin 2006 ymlaen. Cyflwynwyd eu Strategaeth ar gyfer 2006-2010 i Aelodau CChC a chafodd eu sylwadau a'u hawgrymiadau eu hystyried. Prif dargedau'r strategaeth yw:

- Cyfranogiad y bechgyn i gynyddu i 40,829 (twf o 5%);
- Cyfranogiad y genethod i gynyddu i 9,616 (twf o 400%);
- Sefydlu 450 o dimau newydd ar gyfer genethod (twf o 57%);
- 550 o ysgolion i gofrestru gyda'r cynllun achredu ysgolion gyda 345 o ysgolion yn derbyn achrediad (twf o 75%);
- 75% o'r clybiau yng Nghymru i dderbyn maincnod ar gyfer Cynllun Trwydded Clwb Cenedlaethol;
- 22 o glybiau i fodloni'r meini prawf chwaraeon ar gyfer Trwydded Clwb UEFA;
- Hwyluso datblygiad 60 o dimau newydd a 6 strwythur cystadlu newydd ar gyfer chwaraewyr anabl erbyn 2010;
- Hwyluso cynnydd yn nifer y dyfarnwyr cofrestredig o 720 i 1008 (twf o 40%);
- Trefnu 4,000 o gyfleoedd hyfforddi pellach i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr gyda 60% yn cael eu hailddilysu drwy gyfrwng Cymdeithas Genedlaethol yr Hyfforddwyr;
- Hwyluso'r gwaith o sefydlu rhaglen o gemau a gydlynir yn genedlaethol ar gyfer Academïau CBDC;
- Cefnogi datblygiad y chwaraewyr benywaidd ar gyfer sgwad dan 19 CBDC, fel ei fod yn sicrhau safle cyson ymhlith 10 uchaf UEFA ac yn cymhwyso ar gyfer rowndiau terfynol Pencampwriaeth UEFA erbyn 2010;
- 35 o chwaraewyr pellach o'r Sgwad Datblygu Cenedlaethol Dan 16 i sicrhau ysgoloriaeth broffesiynol;
- Cefnogi datblygiad y bechgyn ar gyfer Sgwadiau Canolraddol CBDC – 1 sgwad i gymhwyso ar gyfer rowndiau terfynol Pencampwriaeth UEFA a sicrhau lle ymhlith y 12 uchaf.

Cyflwynwyd drafft terfynol gan YCBDC i CChC ar ddechrau mis Gorffennaf 2005 ac anfonwyd copi at y Gweinidog ar 22 Gorffennaf 2005. Ysgrifennodd y Gweinidog at Gadeirydd CChC ar 17 Medi 2005 ac yna cyfarfu â Chadeirydd a Phrif Weithredwr CChC ar 28 Medi 2005 i drafod y ffordd ymlaen.

Cytunodd y Gweinidog i barhau i gyllido YCBDC ar lefel ddisymud o £735,000 y flwyddyn dros gyfnod y strategaeth. Dywedodd ei bod yn galonogol iawn gweld y cynnydd sylweddol a oedd wedi'i wneud o safbwynt cynyddu cyfraddau cymryd rhan ymhlith y bechgyn a'r genethod sy'n chwarae pêl droed yng Nghymru. Fodd bynnag, mynegodd bryderon ynghylch ymrwymiad CBDC i gefnogi datblygiad pêl droed a gwaith yr Ymddiriedolaeth.

Ysgrifennodd CChC at YCBDC a CBDC i roi gwybod iddynt bod LlCC / CChC yn bwriadu dal ati i gefnogi YCBDC gyda swm o £735,000 y flwyddyn, ond bod hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar un mater -

Mae'r gefnogaeth ariannol i waith yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n helaeth iawn ar arian cyhoeddus. Mynegodd CChC siom nad oedd mwy o flaenoriaeth wedi cael ei rhoi gan y byd pêl droed ei hun i ddatblygu cyfleoedd i bobl ieuainc chwarae'r gêm, a bod LlCC / CChC yn dymuno gweld perthynas agosach, fwy positif rhwng CBDC a'r Ymddiriedolaeth. Mae'n rhaid adlewyrchu hyn hefyd gyda chyfraniad ariannol mwy nag o'r blaen gan CBDC at waith yr Ymddiriedolaeth (ar hyn o bryd mae CBDC yn gwneud cyfraniad o £130,000 y flwyddyn i YCBDC).

Cyn y gellid cynnig y cymorth ariannol yn ffurfiol, dywedwyd wrth YCBDC a CBDC y byddai CChC yn ddiolchgar pe bai cynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth yn cwrdd â CBDC i weld beth ellid ei wneud i wella'r gefnogaeth ariannol a phob cefnogaeth arall ganddynt.

Cyfarfu cynrychiolwyr YCBDC â Phwyllgor Rheoli CBDC ar 17 Ionawr 2006. Bydd argymhellion y cyfarfod hwnnw'n cael eu cyflwyno ar gyfer ystyriaeth gan Gyngor llawn CBDC ar 8 Chwefror 2006.

## Perthynas CBDC ac YCBDC

Nid yw'r berthynas rhwng CBDC ag YCBDC, a sefydlwyd ganddo, wedi bod yn un gref a dyna pam fod y sefyllfa y sonnir amdani uchod yn bodoli. Wedi dweud hynny, gwnaed peth cynnydd yn ddiweddar ac rydym wedi derbyn rhai arwyddion positif. Mae angen trosi hyn yn rhywbeth mwy diriaethol yn awr.

Yn ddiweddar, mae CBDC wedi gofyn i YCBDC newid ei enw masnachu i "Ymddiriedolaeth Bêl Droed Cymru". Ni thrafodwyd y cynnig hwn gyda'r Ymddiriedolaeth ond mae Aelodau Cyngor CBDC yn benderfynol bod raid i hyn ddigwydd er mwyn iddynt gytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth newydd am 4 blynedd a symud ymlaen (cytundeb o 1 Gorffennaf 2005 ymlaen, gyda'r cyllid yn cynyddu gyda'r RPI bob blwyddyn).

Mae gan nifer o Aelodau Bwrdd YCBDC bryderon difrifol ynghylch y newid enw arfaethedig, nid yn unig oherwydd yr effaith ar y cyllid presennol a'r cytundebau masnachol gyda phartneriaid ond, hefyd, oherwydd y syniad o greu mwy o bellter yn y berthynas rhwng y ddwy ochr.

Byddai cynnig o'r fath yn cael effaith sylweddol ar farn CChC am y berthynas rhwng y ddau gorff ac ymrwymiad CBDC i ddatblygu pêl droed.

## Cyllid

Mae'r ffigyrau isod yn dangos y cyllid a ymrwymwyd gan LlCC / CChC i bêl droed yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

Y Gist Gymunedol (grantiau o hyd at £750) £1,271,700 2,071 dyfarniad (ers '99)

Mân Grantiau (hyd at £10,000) £44,028* 9 dyfarniad (ers '00)

Cyfalaf £5,017,611* 53 dyfarniad (ers ’95)

Cyllid Trysorlys i YCBDC a CBDC £2,903,427 (ers ’93)

CYFANSWM £9,236,766

* nid yw’r dyfarniadau ar gyfer cyfleusterau fel Caeau Tyweirch Artiffisial a Mannau Gemau Aml-Ddefnydd (caeau / cyrtiau tarmacadam) wedi’u cynnwys yn y fan yma oherwydd mae’r rhain yn cael eu hystyried fel ‘aml-chwaraeon’. Fodd bynnag, ceir galw mawr am y cyfleusterau hyn i’w defnyddio ar gyfer pêl droed.

## Datblygiad

Mae Ymddiriedolaeth CBDC wedi gwneud cynnydd go iawn wrth gyflwyno’r nodau strategol a sefydlwyd yn 2002. Un o’r meysydd ble gwelwyd y cynnydd mwyaf sylweddol yw cyfranogiad y chwaraewyr benywaidd, gyda nifer y chwaraewyr cofrestredig wedi cynyddu 300%. Cefnogwyd hyn gan dwf yn y strwythurau cystadlu, gyda 255 o dimau newydd a 15 o gynghreiriau newydd wedi’u sefydlu ar gyfer genethod.

Mae’r gefnogaeth i’r sylfaen o wirfoddolwyr wedi cynnwys cyflwyno mwy na 4,000 o gyfleoedd hyfforddi. O safbwynt perfformiad elitaidd, mae 28 o fechgyn o’r Sgwadiau Datblygu Cenedlaethol wedi ennill ysgoloriaethau gyda chlybiau proffesiynol ac mae 25 o enethod wedi’u dyrchafu i Sgwad Cenedlaethol Dan 19 oed CBDC.

Ymhlith blaenoriaethau allweddol yr Ymddiriedolaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf bydd:

- Hybu cyfranogiad egnïol drwy gyfrwng y ddarpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol mewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd;
- Datblygu’r aelodaeth o glybiau iau ymhellach, gyda ffocws penodol ar enethod a thrwy ddatblygu partneriaethau gyda Chymunedau yn Gyntaf, Grwpiau Hybu Iechyd a Chymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig;
- Rhoi lle blaenllaw i’r iaith Gymraeg wrth gyflwyno rhaglenni, drwy gyfrwng cefnogaeth Swyddog Datblygu Iaith Gymraeg Cymdeithas Chwaraeon Cymru ac Urdd Gobaith Cymru;
- Cyflwyno hyfforddiant technegol a galwedigaethol a fydd yn cefnogi datblygiad hyfforddwyr a gwirfoddolwyr, tra hefyd yn cyfrannu at gymysgedd sgiliau gweithwyr y Diwydiant Chwaraeon a Hamdden;
- Defnyddio’r cynnydd mewn technoleg, yn arbennig y rhyngrwyd, i ddyfeisio adnoddau dysgu rhyngweithiol i gefnogi’r gwaith o gyflwyno rhaglenni hyfforddi;
- Cyfrannu at y targed o gael timau pêl droed dynion a merched Cymru i sicrhau lle cynaladwy ymhlith y 24 safle uchaf yn y byd, drwy ganfod a datblygu chwaraewyr talentog a hyfforddi a darparu rhaglenni cystadleuol ar gyfer y Sgwadiau Datblygu Cenedlaethol.

Amcan y gwaith hwn yw cyfrannu at y targedau a osodir gan Lywodraeth y Cynulliad yn ‘Dringo’n Uwch’. Mae gwaith YCBDC yn esiampl o arfer dda ac yn dangos sut gall chwaraeon wneud gwahaniaeth i gynnwys yn gymdeithasol; cyfranogiad merched a genethod; cyfleoedd ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl gydag anableddau. Darperir enghreifftiau o’r prosiectau hyn gan YCBDC yn ei thystiolaeth i’r Pwyllgor.